# Brîff cryno o Ymgynghoriad ar y Canllawiau newydd ar y Gofynion ar gyfer Rhyddhau Safleoedd Niwclear o Reoliadau Sylweddau Ymbelydrol

Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban ac Asiantaeth yr Amgylchedd (asiantaethau'r amgylchedd) yw rheoleiddwyr yr amgylchedd ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr yn y drefn honno. Mae ein cyfrifoldebau'n cynnwys rheoleiddio'r gwaith o waredu gwastraff ymbelydrol ar safleoedd niwclear neu ohonynt, fel y gellir diogelu iechyd pobl a phurdeb yr amgylchedd. Mae'n rhaid i bob gweithred o waredu gwastraff ymbelydrol gydymffurfio â'r amodau a'r cyfyngiadau sydd mewn trwyddedau a roddwyd gan yr asiantaeth berthnasol.

Ar hyd a lled Prydain Fawr, mae llawer o safleoedd niwclear yn cael eu datgomisiynu a'u glanhau. Yn y pen draw, bydd gweithredwr am wneud cais i'r asiantaeth berthnasol i ryddhau rhan o safle, neu'r safle cyfan, o reoliadau sylweddau ymbelydrol. Dim ond os ydym yn fodlon bod y broses o waredu gwastraff ymbelydrol wedi'i chwblhau a bod y safle mewn cyflwr a fydd yn sicrhau safon foddhaol o ddiogelch ar gyfer pobl a'r amgylchedd y bydd asiantaethau'r amgylchedd yn cytuno i ryddhau safle niwclear o'n rheoliadau.

Mae gweithrediadau mewn safleoedd niwclear yn y gorffennol wedi cynhyrchu llawer iawn o wastraff ymbelydrol. Bydd datgomisiynu yn arwain at fwy o wastraff, wrth i gyfleusterau sydd wedi'u halogi ag ymbelydredd gael eu datgymalu a'u dymchwel. Bydd strwythurau sydd wedi'u claddu, fel sylfeini, draeniau a phibelli, yn troi'n wastraff ymbelydrol unwaith y byddant yn segur, os ydynt wedi'u halogi'n ddigonol. Er nad yw ardaloedd o dir neu ddŵr daear heb eu haflonyddu sydd wedi'u halogi ag ymbelydredd yn wastraff ymbelydrol ynddynt eu hunain, gallai'r broses o'u glanhau gynhyrchu gwastraff ymbelydrol.

Wrth reoleiddio'r broses o waredu gwastraff ymbelydrol, mae rheidrwydd ar asiantaethau'r amgylchedd, drwy safonau a chyfreithiau rhyngwladol a domestig, i sicrhau bod unrhyw gysylltiad y mae pobl yn ei gael ag ymbelydredd yn parhau'n is na therfynau a chyfyngiadau penodol.

At hynny, mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw gysylltiad, sy'n is na'r terfynau a'r cyfyngiadau hyn, yn cael ei gadw mor isel ag y bo'n rhesymol bosibl, gan ystyried ffactorau economaidd a chymdeithasol. Gelwir hyn yn optimeiddiaeth, un o egwyddorion hanfodol prosesau diogelu radiolegol. Dylai optimeiddiaeth geisio sicrhau bod unrhyw gysylltiad radiolegol â phobl mor isel â phosibl, sy'n cyd-fynd â'r amcan o sicrhau bod unrhyw niwed (amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, ac ati) a ddaw o gysylltiad â'r gwastraff yn cael ei reoli ar lefel dderbyniol.

Mae'r ffaith bod yn rhaid ystyried llawer o ffactorau yn golygu y dylai proses optimeiddiaeth sicrhau lefel isel priodol o risg o gysylltiad radiolegol, ond nid yw hynny'n golygu'r risg isaf bosibl o reidrwydd. Dylai'r broses o ddefnyddio optimeiddiaeth ar gyfer prosesau datgomisiynu a glanhau safleoedd niwclear sicrhau bod gwastraff a halogiad ymbelydrol

yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n ddiogel, ond na fydd, o reidrwydd, yn arwain at waredu'r holl ymbelydredd o'r safle.

Felly, gall gweithredwyr gwahanol safleoedd niwclear wneud penderfyniadau gwahanol ynglŷn â faint a pha fath o wastraff neu halogiad ymbelydrol y maen nhw'n cynnig ei symud i'w waredu mewn cyfleusterau mewn man arall, neu ei adael ar neu gerllaw eu safle.

Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau mai'r prif amcan yw diogelu pobl a'r amgylchedd yn foddhaol. Dyna pam mae asiantaethau'r amgylchedd wedi cyhoeddi'r ddogfen ganllaw hon, er mwyn egluro'r egwyddorion, y gofynion a'r broses reoleiddio y byddwn yn ei defnyddio mewn safleoedd niwclear ym mhob cam o'r broses ddatgomisiynu a glanhau. Ein nod yw sicrhau bod gwastraff a halogiad ymbelydrol yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n ddiogel gyda chydbwysedd priodol rhwng iechyd dynol, ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a ffactorau perthnasol eraill er mwyn sicrhau y gall safleoedd niwclear gael eu rhyddhau maes o law o reoliadau dan ddeddfwriaeth sylweddau ymbelydrol.

Mae Rhan 1 y canllawiau'n disgrifio egwyddorion asiantaethau'r amgylchedd ar gyfer diogelu pobl a'r amgylchedd rhag ymbelydredd sy'n parhau ar neu gerllaw safleoedd niwclear.

Mae Rhan 2 y canllawiau'n nodi gofynion manwl asiantaethau'r amgylchedd a fydd, os ydynt yn cael eu bodloni yn llawn gan weithredwr, yn bodloni ein hegwyddorion.

Mae Rhan 3 y canllawiau'n disgrifio sut yr ydym yn disgwyl i weithredwr roi ein gofynion ar waith yn ystod oes y safle, ac yn y pen draw, fodloni'r asiantaeth berthnasol y gellir rhyddhau safle o reoliadau sylweddau ymbelydrol.